100
CBHC
RCAHMW

# Prosiectau Arfordirol A Morol

# Coastal And Marine Projects

Mae’r Comisiwn Brenhinol wedi cynnal amrywiaeth o brosiectau ar ymyl yr arfordir mewn ymateb i bryderon ynghylch erydu cofadeiliau ac er mwyn cyflawni ei Warant Frenhinol i estyn ymdriniaeth ofodol Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru â’r parth alltraeth.

The Royal Commission has undertaken a variety of projects at the coast edge in response to concerns about the erosion of monuments and in order to fulfil its Royal Warrant to extend the spatial coverage of the National Monuments Record of Wales to the offshore zone.



Yn 2006 gwnaeth y Comisiwn Brenhinol arolwg o’r amddiffynfeydd gwrth-oresgyn sy’n rhedeg ar hyd ymylon aber afon Mawddach ger pentref y Friog ym Meirionnydd, gan gynnwys 691 o giwbiau gwrth-danciau a phum caer danddaearol safonol o batrwm FW3/24. NPRN 270841

In 2006 the Royal Commission undertook a survey of the anti-invasion defences running along the edge of the Mawddach estuary near the village of Fairbourne, Merionethshire, including 691 anti-tank cubes and five standard FW3/24 pattern pillboxes. NPRN 270841



*NPRN 305331*

Mae rhaglen y Comisiwn Brenhinol o arolygu awyrluniau yn arf grymus wrth fonitro effaith erydu’r glannau ar safleoedd bregus. Enghraifft o hynny yw bryngaer bentir Black Point, Sir Benfro, sy’n llithro’n gyflym i’r môr


The Royal Commission’s programme of aerial photographic survey is a powerful tool for monitoring coastal erosion at vulnerable sites. Above, the Black Point Rath promontory hillfort, Pembrokeshire, which is slipping rapidly into the sea



*NPRN 407993, 408004-40812*

Ym mis Mai 2008 dechreuodd y Comisiwn Brenhinol wneud arolwg o’r olion arforol a milwrol yng Ngwarchodfa Natur Ynys-las. Mae’r gwaith wedi dod o hyd i olion dwy sgwner o Dderwen-las (NPRN 407989). Mae gwaith ymchwil ac arolygu yn dal i ymchwilio i’r olion milwrol sy’n gysylltiedig â’r maes tanio a ddefnyddid yn ystod y rhyfel

In May 2008 the Royal Commission began a survey of the maritime and military remains within the Ynyslas Nature Reserve. The work has located the remains of two Derwenlas schooners (NPRN 407989). Research and survey continues to explore the military remains associated with the wartime firing range



*NPRN 48118-48123*

Yn 2003 a 2005, fel rhan o raglen ehangach o fonitro traethau Sir Benfro yn archaeolegol, cofnodwyd dyddodion mawn cynhanesyddol yn Frainslake Sands wrth weithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth y Parc Cenedlaethol ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Cofnodwyd y safleoedd adeg llanw isel gan ddefnyddio Leica GPS System 500

In 2003 and 2005, as part of a wider rogramme of archaeological monitoring of beaches in Pembrokeshire, prehistoric peat deposits were recorded at Frainslake Sands, working in partnership with the National Park Service and Dyfed Archaeological Trust. The positions were recorded at low tide using a Leica System 500 GPS